**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our Ref: MA-L/LG/0092/19

Mr Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd y Pierhead
Caerdydd
CF99 1NA

13 Chwefror 2019

Annwyl Mike

Yn dilyn fy ymddangosiad yn eich cyfarfod pwyllgor ar 24 Ionawr, cynigiais eich diweddaru yn dilyn cyfarfod yr Uwch Grŵp Llywio ar y Môr a Physgodfeydd, ynglŷn â phryderon ynghylch cymal 18 o Fesur Pysgodfeydd drafft y DU.

Mae'r Uwch Grŵp Llywio ar y Môr a Physgodfeydd yn cynnwys uwch swyddogion o'r pedair gweinyddiaeth. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i drafod ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, gan ddarparu fforwm ar gyfer trafodaeth swyddogol agored rhwng y Gweinyddiaethau, a threfniadau llywodraethu ar y cyd.

Mae swyddogion wedi trafod cymal 18 o'r Bil drafft sawl gwaith. Rwyf wedi derbyn cadarnhad bod swyddogion wedi cyfleu fy mhryderon ynglŷn â'r mater hwn ac wedi gofyn i DEFRA ystyried ac ymateb, gan gymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a'r arferion rhynglywodraethol presennol ar gydweithredu.
Mae Llywodraeth y DU yn deall fy mhryderon ynghylch y ffordd mae'r Mesur wedi ei ddrafftio, a sut y gellid defnyddio'r pwerau. Maent wedi fy sicrhau nad eu bwriad yw gweithredu'r swyddogaethau fel hyn, ac maent yn awyddus i gydweithio gyda ni i ddarparu'r sicrwydd yr wyf ei angen. Disgwyliaf y bydd hyn yn digwydd yn fuan, ond mae trafodaeth yn parhau.

Mi wnâi ddiweddaru'r Pwyllgor ymhellach pan ddaw'r trafodaethau hyn i ben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y sesiwn gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â 'pysgota anfwriadol'. Mae darpariaethau mewn perthynas â physgota anfwriadol wedi ei chynnwys o fewn y ddeddfwriaeth, sy'n cael ei gadw o dan y broses Deddf Ymadael. Mi fydd priodoldeb y darpariaethau hyn yn cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu polisi pysgodfeydd newydd gyda rhanddeiliaid ar gyfer Cymru, yn dilyn ein hymadawiad o'r UE.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Cc: Mr Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol